

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Ceredigion

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ceredigion i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Ceredigion fodloni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a methu â bodloni 2 ohonynt.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Ceredigion 7 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2018/19, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran ffigurau defnyddwyr craidd yn benodol. Fodd bynnag, mae effaith y lleihad yn y capasiti staffio ar berfformiad mewn meysydd eraill i'w gweld yn glir iawn, gyda lleihad trawiadol mewn gwasanaethau buddiol fel hyfforddiant. Ni chynhaliwyd arolygon defnyddwyr ffurfiol ers o leiaf bum mlynedd, sy'n cyfrannu at y diffyg fframwaith strategol amlwg ar gyfer darparu gwasanaethau, gyda'r adolygiad o strategaeth a pholisi y cyfeiriwyd ato yn 2017/18 yn dal i fod heb ei gwblhau. Mae angen ystyried adnoddau cyffredinol y gwasanaeth a'i flaenoriaethau strategol yn ofalus, er mwyn sicrhau y gall gynllunio'n effeithiol a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol wrth gyflawni ar gyfer ei ddefnyddwyr a'i gymunedau.

- Mae pob prif fan gwasanaeth yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, ond nodir bod y ddarpariaeth yn mynd yn fwy heriol yn y canghennau llai o faint yn y gwasanaeth oherwydd capasiti'r staff.
- Mae ffocws ar y gwasanaeth craidd wedi talu ar ei ganfed o ran y defnydd craidd o lyfrgelloedd (DA 8), gyda'r perfformiad yn gwella neu'n parhau ar yr un lefel ym mhob maes bron. Erys benthyciadau i oedolion y pen o'r boblogaeth yn nodedig o uchel, ac mae'r gwasanaeth yn haeddu rhywfaint o glod am ei waith yn y meysydd hyn.
- Mewn gwrthgyferbyniad, mae problemau o ran capasiti wedi cael effaith fawr ar gynnig gweithgareddau fel hyfforddiant, gyda'r niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol ymhlith yr isaf yng Nghymru bellach.
- Er na chyflawnir y targedau caffael cyffredinol, mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran darpariaeth Gymraeg, gyda pherfformiad da o ganlyniad i hynny o ran nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir, sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ymhellach yn 2018/19 ar ôl colli pedair swydd cyfwerth ag amser llawn. Mae'r pwysau y mae hyn wedi'i roi ar waith cynllunio strategol a chynnig gweithgareddau a gwasanaethau yn amlwg iawn yn y datganiad eleni.
- Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar lefelau 2018/19, ac mae'r hyn a gynigir gan Ceredigion yn dal gyda'r gorau yng Nghymru.
- Er bod cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig yn 2018/19, mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chostau staffio cynyddol ac mewn meysydd eraill mae cyllidebau wedi mynd yn llai; erys gwariant y pen o'r boblogaeth islaw'r lefel ganolrifol.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Ceredigion yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn methu â chyflawni dwy. Mae'r sefyllfa o ran ymgynghori â ddefnyddwyr (HG 11) wedi bodoli ers peth amser, ac ni chwblhawyd unrhyw arolygon o ddefnyddwyr o dan y pumed fframwaith nac o fewn y ddwy flynedd gyntaf o'r chweched. Nodir bod cynlluniau i gynnal arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant yn 2019/20. Gan fod ei strategaeth llyfrgelloedd yn parhau i gael ei datblygu nid yw HG 12 yn cael ei chyflawni ychwaith. Yn 2017/18, nodwyd bod HG10, sy'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau, yn faes gwan, ond mae'r gwelliannau a gynlluniwyd i ddarpariaeth ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'u sicrhau, gyda manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth, ac mae'r maes hwn wedi'i gyflawni'n llawn bellach. Ym mhob achos, nid yw'r dystiolaeth a roddwyd fel y sail dros yr hunanasesiad yn ddigon manwl; byddai ystyriaeth lawnach o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni'r hawliau yn rhoi mwy o sicrwydd bod y gwasanaeth yn gweithio'n briodol ym mhob maes.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Ceredigion yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2.

Dangosydd Ansawdd		Cyflawni?
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	x	Heb ei gyflawni
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	

DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	✓	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Nid yw gwasanaeth Ceredigion yn cyflawni DA 6 mwyach, a dim ond mewn pedwar o'i bum prif fan gwasanaeth y darperir digwyddiadau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig. Mae hyn yn adlewyrchu cyfyngiadau ar gapasiti'r staff, a'r boblogaeth fach/wledig a wasanaethir gan rai canghennau. Yn 2018/19, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau ac adlewyrchu perfformiad gwasanaethau unigol, ni chafodd e-adnoddau a gaffaelwyd yn ganolog eu cynnwys yn yr adroddiad yn erbyn eitemau a gaffaelwyd ar gyfer DA 9 ar y cam asesu. Mae hyn wedi effeithio ar berfformiad Ceredigion yn y maes hwn ac o ganlyniad ni chyrrhaeddir y safon mwyach.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid yw Ceredigion wedi cynnal ei arolygon o ddefnyddwyr ar gyfer y chweched fframwaith eto, ac ni chwblhaodd arolwg o ddefnyddwyr o dan y pumed fframwaith. Nodir bod problemau o ran capasiti wedi effeithio ar gynlluniau i gwblhau'r arolwg i oedolion yn 2018/19, a nodir bod y gwasanaeth bellach yn bwriadu cwblhau'r ddau arolwg (oedolion a phlant) yn 2019/20. Mae'r broblem hon hefyd yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i gyflawni'r hawliau craidd; bydd angen cynllunio'r gwaith o ymgynghori â defnyddwyr yn glir er mwyn i'r gwasanaeth fodloni'r gofyniad yn ystod y drydedd flwyddyn o'r fframwaith yn ôl y bwriad. Fel y saif, nid oes gan y gwasanaeth adborth gan ddefnyddwyr sydd wedi'i ddilysu er mwyn llywio datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Nodir problemau tebyg o ran capasiti mewn perthynas ag adrodd yn erbyn DA 5 a'r gwerthusiad o'r hyfforddiant a gynigir gan y

gwasanaeth. Er bod ffigur wedi'i nodi, nid yw'r sampl a arolygwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn ystadegol gywir.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau.	dd/b	60%	94%	97%	
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	dd/b	38%	88%	95%	
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	80%	20/22	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Ceredigion ddwy astudiaeth achos o'r fath unwaith eto; mae'n werth nodi bod y rhain yn myfyrio ar y gwasanaethau craidd a ddarperir, yn hytrach na mentrau penodol neu waith prosiect wedi'i dargedu.

- Adnoddau Gwybodaeth – gwerth y llyfrgell a staff y llyfrgell wrth helpu unigolyn i ddod o hyd i adnoddau'r llyfrgell a'u defnyddio.
- Cefnogi Cyflogaeth – rôl y llyfrgell o ran cefnogi rhiant senl i ddatblygu ei CV a chwilio am swyddi ar-lein, gan ei helpu i fagu hyder a dod o hyd i gyflogaeth addas.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ceredigion ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b	24%	82%	96%	dd/b
c) iechyd a lles	dd/b	33%	62%	94%	dd/b
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b	90%	97%	100%	dd/b
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b	81%	91%	98%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b	93%	99%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b	65%	91%	95%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	dd/b	93%	97%	99%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b	8.5	9.3	9.5	dd/b

DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	16	20/22	13	30	208	32
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	137	=14/22	15	199	433	136
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth						
	91	22/22	91	295	689	91
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,187	9/22	2,596	3,969	7,170*	4,028
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	1,197	7/22	345	885	2,205	317
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	159	9/22	58	150	251	158
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²						
	1,106	4/22	95	602	1,424	1046
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	7	19/22	5	10	14	7
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	27%	10/22	14%	25%	63%	50%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	30	11/21	3	30	214	25
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,000	16/21	90	1,477	9,806	40
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£10,467	15/22	£7,181	£12,145	£19,449	£10,183
b) % ar staff	68%	9/22	47%	62%	78%	66%
% ar adnoddau gwybodaeth	15%	5/22	8%	13%	21%	16%
% ar offer ac adeiladau	5%	8/22	0.4%	4%	25%	6%
% ar gostau gweithredol eraill	12%	14/22	0.3%	16%	37%	12%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£0	=17/22	£0	£467	£8,829	£1,331
DA 15 – Cost net am bob ymweliad						
	£1.54	16/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.85
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.41%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	7.99%	20/20	0.00%	0.28%	7.99%	11.24%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân
² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2018/19 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo
³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw Ceredigion wedi cwblhau ei arolygon o ddefnyddwyr o fewn y fframwaith presennol eto. Mae pob llyfrgell sefydlog sydd ar agor am fwy na 10 awr yn parhau i ddarparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth cymharol dda ar gyfer iechyd a lles, ond nodir bod y ddarpariaeth yn mynd yn fwy heriol yn y canghennau llai o faint yn y gwasanaeth. Serch hynny, mae cael gwared ar ddirwyon i ddefnyddwyr anabl a gofalwyr yn ddatblygiad i'w groesawu. Mae'r niferoedd sy'n mynychu

hyfforddiant i ddefnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi lleihau'n sylweddol yn 2018/19 ac maent bellach ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac er yr ymddengys bod y niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi parhau ar yr un lefel, mae'r perfformiad o ran hyn hefyd islaw'r lefel ganolrifol.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Ceredigion yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ond ni lwyddodd i ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'i brif fannau gwasanaeth yn 2018/19, ac o ganlyniad nid yw DA 6 wedi cael ei gyflawni. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau fel arall wedi parhau ar lefelau 2017/18 fwy neu lai, ond mae'r niferoedd sy'n mynychu y pen o'r boblogaeth ar y lefel isaf yng Nghymru bellach. Fodd bynnag, mae ffocws ar y gwasanaeth craidd wedi talu ar ei ganfed o ran defnydd mewn meysydd eraill, gyda'r perfformiad yn gwella neu'n parhau ar yr un lefel ym mhob maes bron. Ar ôl cyflwyno'r wefan newydd, mae nifer y rhith-ymweliadau wedi mwy na threblu, a bu cynnydd sylweddol yn nifer y llyfrau i blant a fenthycir a lawrlwythiadau electronig. Er gwaethaf lleihad bach yn nifer y benthyciadau i oedolion, mae Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda, gyda benthyciadau i oedolion y pen o'r boblogaeth yn dal i fod ar y lefel uchaf ond un yng Nghymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae'r gyllideb ar gyfer deunyddiau wedi cael ei chwtogi unwaith eto yn 2018/19, a chan na chynhwysir yr e-adnoddau a brynwyd yn ganolog yn yr asesiad o nifer yr eitemau a gaffaelwyd y pen o'r boblogaeth (DA 9) nid yw'r targed o ran hyn wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran darpariaeth Gymraeg, gyda chynnydd canlyniadol yn nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir, sy'n dal ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi parhau ar lefelau 2017/18, gyda'r defnydd a wneir ohonynt (27%) yn gostwng i ychydig uwchlaw'r lefel ganolrifol o 50% yn y flwyddyn adrodd flaenorol. Nodir bod effaith Wi-Fi ar y defnydd yn ffactor posibl o ran hyn, a hefyd newid yn y dull cofnodi, gyda ffigurau'n adlewyrchu cyfrif blwyddyn lawn o'r system archebu newydd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, er nad yw'n rhan o gynllun cyd-fenthyca rhanbarthol – fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw ceisiadau cyn cyhoeddi (sef 10% o'r cyfanswm yn ôl yr amcangyfrif) wedi'u cynnwys yn y datganiad.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ymhellach yn 2018/19 ar ôl colli pedair swydd cyfwerth ag amser llawn i bob golwg. Mae'r pwysau y mae hyn wedi'i roi ar ddarparu gwasanaethau yn amlwg iawn yn y datganiad eleni, yn enwedig o ran hyfforddiant a gweithgareddau eraill. Er bod yr awdurdod yn parhau i fodloni'r gofynion o ran staff cymwysedig (un o chwe awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny erbyn hyn), rhybuddir y gall yr angen am arbedion pellach effeithio ar y sefyllfa hon yn y dyfodol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r targed i neilltuo amser ar gyfer datblygiad proffesiynol, ond dim ond cyfran fach o hyn sy'n cael ei nodi fel gwaith sy'n benodol i'r gwasanaeth llyfrgell. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu, gyda 30 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tua 33 awr yr un i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw ar y gwasanaeth wedi cynyddu ychydig yn 2018/19, gan adlewyrchu dylanwad dyfarniad cyflog diweddar ar gostau staff. Mae gwariant refeniw y pen o'r boblogaeth yn gyffredinol yn dal yn is na'r lefel ganolrifol. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar lefelau 2017/18, ac mae'r perfformiad o ran hyn yn dal ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae problemau mecanyddol a salwch staff wedi parhau i effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth llyfrgell deithiol, ond gobeithir bod y problemau hyn wedi'u datrys erbyn hyn.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Ceredigion yn parhau i nodi'r ffordd y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; cefnogi dysgu gydol oes; rhoi mynediad at adnoddau i'r rhai sy'n chwilio am waith; darparu gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd a lles; ac ymrwymiad cadarn i ddarpariaeth Gymraeg. Byddai diweddariad i'r sylwadau er mwyn adlewyrchu'r ffordd y mae datblygiadau a darpariaeth yn 2018/19 yn cefnogi'r meysydd hyn wedi bod yn briodol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Ceredigion yn nodi ansicrwydd o hyd o ran cyllidebau a staffio, a golygodd hyn fod penderfyniad wedi'i wneud yn 2018/19 i ganolbwyntio ar y gwasanaeth craidd. Er bod hyn wedi sicrhau rhai gwelliannau o ran ffigurau defnydd mae wedi effeithio ar gyflawniadau mewn meysydd eraill. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio adeiladu ar lwyddiannau 2018/19 a thargeddu meysydd megis rhaglenni o hyfforddiant a digwyddiadau yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r gwasanaeth yn ystyried adleoli man gwasanaeth llyfrgell anstatudol yng Nghei Newydd, a bydd hefyd yn ceisio cyllid allanol i adnewyddu'r amgylchedd mewn llyfrgelloedd eraill. Cyfeirir hefyd at gynlluniau i ddatblygu rôl cyswllt cwsmeriaid y gwasanaeth fel rhan o fodel gwasanaeth integredig y cyngor.

6 Casgliad

Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2018/19, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran ffigurau defnyddwyr craidd yn benodol. Fodd bynnag, mae effaith y lleihad yn y capasiti staffio ar berfformiad mewn meysydd eraill i'w gweld yn glir iawn, gyda lleihad trawiadol mewn gwasanaethau buddiol fel hyfforddiant. Ni chynhaliwyd arolygon defnyddwyr ffurfiol ers o leiaf bum mlynedd, sy'n cyfrannu at y diffyg fframwaith strategol amlwg ar gyfer darparu gwasanaethau, gyda'r adolygiad o strategaeth a pholisi y cyfeiriwyd ato yn 2017/18 yn dal i fod heb ei gwblhau. Mae angen ystyried adnoddau cyffredinol y gwasanaeth a'i flaenoriaethau strategol yn ofalus, er mwyn sicrhau y gall gynllunio'n effeithiol a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol wrth gyflawni ar gyfer ei ddefnyddwyr a'i gymunedau.

¹Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2018/19. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.